Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Ystadegau Medr

# Cyllid sefydliadau addysg uwch, o fis Awst 2024 i fis Gorffennaf 2025

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/09/2026 |
| **Dyddiad:** | 19 Mai 2026 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Dadansoddiad o incwm a gwariant sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o fis Awst 2024 i fis Gorffennaf 2025 |
| **Thema:** | Addysg Uwch |
| **Ffynhonnell:** | Cofnod Cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 1
Incwm ........ 1
Gwariant ........ 2
Y sefyllfa weithredu sylfaenol ........ 3
Data ........ 4
Ffynhonnell y data ........ 4
Nodiadau a diffiniadau ........ 4
Gwybodaeth allweddol am ansawdd ........ 5
Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ........ 5


## Cyflwyniad

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi crynodeb o wybodaeth ariannol a gyflwynwyd i gofnod cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd Medr yr adroddiad ‘Cynaliadwyedd ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru’ sy'n rhoi asesiad manylach o gyllid y sector addysg uwch yng Nghymru. Ceir rhai gwahaniaethau rhwng y ffigurau yn y naill adroddiad a'r llall. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Prifysgol Cymru gan ei bod yn cyflwyno data i gofnod cyllid HESA, ond nid yw'r adroddiad ar gynaliadwyedd ariannol yn cynnwys y sefydliad hwn (gweler yr adran Data).

## Incwm

**Siart 1: Dadansoddiad o gategorïau incwm yn yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, o 2022/23 i 2024/25**




Ffynhonnell: Cofnod Cyllid HESA, Tabl 1

Cyfanswm incwm cyfunol sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2024/25 oedd £1.90 biliwn. Yn 2022/23 ac yn 2023/24, y cyfanswm oedd £1.98 biliwn.

Roedd ffioedd dysgu a chontractau addysg yn cyfrif am £1.04 biliwn o'r incwm yn 2024/25, sy'n golygu mai'r categori hwn oedd y ffynhonnell incwm fwyaf. Mae hyn yn cynrychioli lleihad o 6% ers 2023/24, pan gofnodwyd £1.11 biliwn.

Grantiau cyrff cyllido oedd yr unig gategori incwm lle y gwelwyd cynnydd rhwng 2023/24 a 2024/25, gan godi 3% o £276 miliwn i £285 miliwn. Yn ogystal â chyllid gan Medr, gall grantiau cyrff cyllido gynnwys cyllid ar gyfer sefydliadau addysg bellach o fewn grwpiau addysg uwch, a rhywfaint o gyllid arall gan Lywodraeth y DU.

Roedd grantiau a chontractau ymchwil yn cyfrif am werth £237 miliwn o incwm yn 2024/25.

Gwelwyd lleihad ym mhob un o'r categorïau incwm sy'n weddill yn ystod 2024/25.

## Gwariant

Noder: mae'r dull o gyfrifo gwariant sylfaenol yn y datganiad hwn yn wahanol i ddatganiad 2023/24 am ei fod yn cadw addasiadau cyfrifyddu technegol nad ydynt yn arian parod i gynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar wahân i gostau llog a chostau cyllid eraill, yn ogystal â chostau staff. Dim ond eu cadw ar wahân i gostau staff a wnaed yn natganiad 2023/24. Gwnaed y newid hwn er mwyn cyd-fynd ag arferion safonol yn y sector a chyhoeddiadau eraill gan Medr.

Nid yw cofnod cyllid HESA yn casglu ffigurau wedi'u hailddatgan ar gyfer addasiadau costau pensiwn, felly defnyddiwyd y ffigurau a gyflwynwyd yn wreiddiol.

**Tabl 1: Cymhariaeth o fathau o wariant ar gyfer yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, o 2022/23 i 2024/25 (£M)**

| Math o wariant | 2022/23 (£M) | 2023/24 (£M) | 2024/25 (£M) |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gwariant | 1,889 | 1,679 | 2,020 |
| Gwariant sylfaenol | 1,945 | 2,056 | 2,026 |
| Gwariant gweithredu sylfaenol | 1,943 | 2,039 | 1,977 |

Ffynonellau[1]: Cofnod Cyllid HESA, Tabl 1, Tabl 8 a Thabl 12

Mae cyfanswm y gwariant, fel y'i nodir mewn cyfrifon statudol, yn cynnwys addasiadau pensiwn technegol nad ydynt yn arian parod ac eitemau untro megis costau ailstrwythuro sylfaenol. Mae'r addasiadau pensiwn yn seiliedig ar brisiadau actiwaraidd o'r cynlluniau pensiwn, a gallant amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar werth marchnadol ar adeg prisio. Gall hyn roi darlun camarweiniol o'r costau sylfaenol.


Mae gwariant sylfaenol yn tynnu addasiadau pensiwn technegol nad ydynt yn arian parod allan o gostau staff a chostau llog a chostau cyllid eraill.

Nid yw gwariant gweithredu sylfaenol yn cynnwys costau ailstrwythuro sylfaenol chwaith. Gan mai costau untro yw costau ailstrwythuro, nid ydynt yn rhan o weithrediadau parhaus arferol.

Yn 2024/25, bu lleihad o 3% mewn gwariant gweithredu sylfaenol, i £1.98 biliwn.

[1] Mae Tabl 1 yn cynnwys y categorïau gwariant cyffredinol. Mae Tabl 8 yn cynnwys yr addasiadau pensiwn i'r categori 'costau llog a chostau cyllid eraill' yn y golofn 'Interest and other finance costs', y gellir ei gweld pan fydd 'Other expenditure' wedi'i ddewis ar gyfer hidlydd grŵp canolfan gostau HESA a phan fydd 'Pension cost adjustment' wedi'i ddewis ar gyfer hidlydd costau HESA. Mae Tabl 12 yn cynnwys y newidiadau i ddarpariaethau pensiwn ac addasiadau pensiwn ar gyfer costau staff.

**Siart 2: Dadansoddiad o gategorïau gwariant mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, o 2022/23 i 2024/25**




Ffynonellau[2]: Cofnod Cyllid HESA, Tabl 1, Tabl 8 a Thabl 12

Bu lleihad mewn costau staff (heb gynnwys newidiadau technegol nad ydynt yn arian parod i ddarpariaethau pensiwn ac addasiadau pensiwn) a chostau gweithredu eraill yn 2024/25. Cofnodwyd costau staff o £1.1 biliwn yn 2024/25; bu lleihad o lai nag 1%.

Bu lleihad o 8% mewn costau gweithredu eraill, i £681 miliwn yn 2024/25.

## Y sefyllfa weithredu sylfaenol

Y gwarged neu'r diffyg yn sgil gweithgareddau gweithredol craidd mewn prifysgolion yw'r sefyllfa weithredu sylfaenol. Yn y cyhoeddiad hwn, fe'i cyfrifwyd drwy dynnu'r gwariant gweithredu sylfaenol (nad yw'n cynnwys addasiadau pensiwn technegol nad ydynt yn arian parod na chostau ailstrwythuro sylfaenol untro) o gyfanswm yr incwm.

Yn 2024/25, cofnododd prifysgolion yng Nghymru ddiffyg gweithredu cyfunol o £81 miliwn. Yn 2023/24, £56 miliwn oedd y diffyg hwn. Yn 2022/23, roedd gwarged gweithredu o £40 miliwn.

[2] Mae Tabl 1 yn cynnwys y categorïau gwariant cyffredinol. Mae Tabl 8 yn cynnwys yr addasiadau pensiwn i'r categori ‘costau llog a chostau cyllid eraill’ yn y golofn ‘Interest and other finance costs’, y gellir ei gweld pan fydd ‘Other expenditure’ wedi'i ddewis ar gyfer hidlydd grŵp canolfan gostau HESA a phan fydd ‘Pension cost adjustment’ wedi'i ddewis ar gyfer hidlydd costau HESA. Mae Tabl 12 yn cynnwys y newidiadau i ddarpariaethau pensiwn ac addasiadau pensiwn ar gyfer costau staff.

## Data

Ffigurau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025 yw ffigurau 2024/25, ac mae data'r blynyddoedd blaenorol yn dilyn yr un patrwm.

Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys data gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, gan mai dim ond data ariannol ar sail y DU gyfan y mae'r Brifysgol Agored yn eu cynhyrchu. Mae Prifysgol Cymru (swyddogaethau canolog) wedi cael ei chynnwys yn y datganiad hwn, sy'n golygu ei bod yn bosibl y bydd y ffigurau fymryn yn wahanol i'r adroddiad 'Cynaliadwyedd ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru' Medr, nad oedd yn cynnwys Prifysgol Cymru yn ei ffigurau, am nad yw Prifysgol Cymru yn gorff dyfarnu i sefydliadau eraill yng Nghymru ar hyn o bryd ac am fod ganddi weithgarwch cyfyngedig fel endid annibynnol. Nid yw sefydliadau addysg bellach, colegau chweched dosbarth na darparwyr addysg uwch amgen wedi'u cynnwys chwaith.

Mae cofnod cyllid HESA yn caniatáu i ddarparwyr ddiwygio eu ffigurau ar gyfer pob blwyddyn yn y cyflwyniad dilynol. Mae'r cyhoeddiad hwn yn defnyddio'r ffigurau a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar. Daeth ffigurau 2023/24 o gyflwyniad 2024/25 ac felly mae'n bosibl y byddant yn wahanol i gyhoeddiadau blaenorol. Yr eithriad i hyn yw addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod sydd wedi'u cynnwys o fewn 'costau llog a chostau cyllid eraill', lle nad yw'r cofnod cyllid yn casglu gwerth diwygiedig.

Mae'r data i'w gweld ar wefan Data Agored HESA, sydd hefyd yn cynnwys data ar gyfer darparwyr unigol.

## Ffynhonnell y data

### Cofnod cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Bydd HESA yn casglu data cyllid gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y data a gesglir yn atgynhyrchu datganiadau ariannol archwiliedig y sefydliadau ac yn cynnwys rhagor o wybodaeth am incwm a chostau fesul cod pwnc a gweithgaredd, a chyllid ar gyfer gwariant cyfalaf.

Bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyflwyno data ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ar dempledi a ddarperir gan HESA.  Bydd HESA yn anelu at gyhoeddi data ar gyfer y DU gyfan yn ystod y gwanwyn canlynol, gan gynnwys data cyfatebol gan ddarparwyr addysg uwch yn Lloegr a gasglwyd gan y Swyddfa Fyfyrwyr.

## Nodiadau a diffiniadau

Mae rhagor o wybodaeth am y diffiniadau a ddefnyddir yng nghofnod cyllid HESA i'w gweld ar wefan HESA.

# Gwybodaeth allweddol am ansawdd

## Perthnasedd

Mae'r ystadegau'n rhoi gwybodaeth lefel uchel am gyllid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

## Cywirdeb

Mae HESA wedi datblygu manylebau manwl ar gyfer y data y bydd sefydliadau'n eu dychwelyd. Bydd yr holl ddata'n mynd drwy sawl cam dilysu a gwirio, a bydd y rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch yn cyflwyno eu data nifer o weithiau er mwyn llwyddo yn y gwiriadau hyn. Fel rhan o hyn, bydd y data'n destun gwaith sicrhau ansawdd a phrosesu, gan gynnwys cymharu â chyfrifon cyhoeddedig sefydliadau addysg uwch.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Bydd HESA yn casglu'r cofnod cyllid yn ystod y gaeaf ar ôl diwedd pob blwyddyn academaidd, gyda'r nod o gyhoeddi data yn ystod y gwanwyn canlynol ar ôl cael data ar gyfer darparwyr yn Lloegr gan y Swyddfa Fyfyrwyr.

Mae'r datganiad hwn wedi cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl hyn.

## Hygyrchedd ac eglurder

Gwnaed cyhoeddiad ymlaen llaw ynghylch y datganiad ystadegol hwn ar wefan Llywodraeth Cymru, ac yna cafodd ei gyhoeddi ar wefan Medr.cymru.

Mae data cyllid ychwanegol i'w gweld ar wefan Data Agored HESA.

## Cymharedd a chydlyniant

Mae gwefan data agored HESA yn cynnwys data cyllid ar gyfer darparwyr ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys y data y bydd HESA yn eu casglu gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi'u cyfuno â data y bydd y Swyddfa Fyfyrwyr yn eu casglu gan ddarparwyr yn Lloegr.

# Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein hymarfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau yn gosod y safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai pawb sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol lynu wrthynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau er mwyn gwella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Nodir y rhain yn y Datganiad cydymffurfio â’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau a gyhoeddwyd gan Medr.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau disgwyliedig mewn perthynas â dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

## Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'i bolisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

## Ansawdd

Daw'r data o gofnod cyllid HESA, sy'n casglu data gan sefydliadau addysg uwch. Pan gaiff y data eu cyflwyno, rhaid iddynt fodloni rheolau dilysu penodol. Pan gaiff yr ystadegau eu cynhyrchu, bydd yr ystadegwyr yn cynnal gwiriadau ansawdd.

## Gwerth

Caiff yr ystadegau hyn eu cynhyrchu er mwyn cyflwyno gwybodaeth am incwm a gwariant y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

## Ystadegau cysylltiedig

Mae datganiad 2023/24 yn y gyfres hon o ystadegau i'w gweld ar wefan Medr.

Fel arall, cafodd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac maent i'w gweld yn llyw.cymru.

Mae'r adroddiad 'Cynaliadwyedd ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru', a gyhoeddwyd gan Medr ym mis Mawrth 2026, yn rhoi asesiad manylach o gyllid y sector addysg uwch yng Nghymru.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**